

## BWEA Bwletin Ynni Adnewyddol Cymru Rhifyn 03 - Mawrth 2007

### Arbedwch Bapur – Tanysgrifiwch ar-lein yn [www.bwea.com/mail](http://www.bwea.com/mail)

Dyma'r trydydd rifyn o Fwletin Ynni Adnewyddol Cymru sy'n anelu at hysbysu rhanddeiliaid allweddol a chefnogwyr technolegau adnewyddol yng Nghymru ynglŷn â chynnydd a wneir. Y mae'r rhifyn hwn a'r ddau rifyn blaenorol wedi ymddangos mewn diwyg papur a diwyg electronig, ond er budd bod yn fwy llesol i'r amgylchedd, y rhifyn hwn fydd yr olaf a gyhoeddir ar bapur. Os nad ydych wedi gwneud hynny eto, a fydddech cystal â sicrhau eich bod yn tanysgrifio i rifynnau electronig yn y dyfodol drwy fynd i [www.bwea.com/mail](http://www.bwea.com/mail).

### Y Mae Arolwg Newydd yn Dangos Cefnogaeth Gyhoeddus Gref i Ynni Adnewyddol

Y mae arolwg newydd a gynhaliwyd gan Allegra Strategies unwaith eto yn dangos cefnogaeth gref o blaid ynni adnewyddol yng Nghymru. Fe ddengys yr astudiaeth y byddai mwyafrif yn barod i dalu mwy er mwyn sicrhau bod eu cyflenwad trydan yn dod o ffynonellau adnewyddol. O ran ynni gwynt, dim ond 5% o ymatebyddion â ffermydd gwynt yn eu hardal leol a fynegodd adborth negyddol tuag at gael tyrbîn gwynt wrth ymyl eu cartrefi. Y mae'r arolwg hwn eto yn tansilio llawer o'r honiadau gwallus a wneir gan wrthwynebwyr ynni gwynt sydd yn bendant iawn yn y lleiafrif (gweler [www.allegra.co.uk/project-renew.html](http://www.allegra.co.uk/project-renew.html)).

### Cefnogaeth i Brosiect Gwynt yn y Cymoedd

Y mae Gamesa Energy UK newydd orffen y cyfnod cyntaf o'u rhaglen ymgynghori cyhoeddus ar gyfer cynigiad Parc Ynni Adnewyddol Llynfi, yn TAN8 SSA "F" a thua 3-4 cilometr i'r gogledd ddwyrain o Faesteg. Fe ddisgwyliwyd yn eiddgar am adborth i'r cynigiad hwn gan ei fod yn bwriadu defnyddio tyrbînau gwynt 4.5MW sy'n llwyr fodern. Y mae hyn yn golygu y gallai'r prosiect 14 tyrbîn gwynt wneud cyfraniad arwyddocaol i dargedau TAN8, gan y byddai gan y cynigiad fwy na dwywaith y cynhwysedd sydd gan y prosiect 103 tyrbîn gwynt ger Llandinam yng nghanolbarth Cymru, er enghraifft.

Yn ystod y rhaglen ymgynghori, fe wahoddwyd mwy na 13,000 o bobl i fynychu digwyddiadau mewn cymunedau lleol yn ymwneud â'r cynigiad, gan gynnwys tair arddangosfa gyhoeddus a gynhaliwyd cyn y Nadolig, a thri chyfarfod ymgynghori cyhoeddus mewn modd "galw heibio" yn y Flwyddyn Newydd. Yn y rhain, fe roddwyd cyfle uniongyrchol i'r cyhoedd weld manylion y cynigiad a sut y gall hyn gynorthwyo i leihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr.


Y mae cynhwysedd uwch y tyrbînau gwynt arfaethedig yn dod o ganlyniad i'w maint ffisegol mwy. Fe olygai hyn fod y deunydd gweledol i'r cyhoedd yn rhagdybio y byddai uchderau'r llafnau yn 184 o fetrau. Er gwaethaf hyn, o'r bobl hynny a gwblhaodd holiaduron yn y tair arddangosfa gyhoeddus, fe wnaeth mwy gefnogi'r cynigiad nag a wnaeth ei wrthwynebu. Fe wnaeth un preswlydd lleol fwrw'r sylwadaeth:

*"Yr wyf yn cefnogi'n gryf bob prosiect ynni adnewyddol ac yr wyf yn ystyried y cynllun arfaethedig yn gadarnhaol, er y byddant yn cael eu gweld o fy nghartref."*

### Cynnydd tuag at dargedau TAN8

Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targedau pendant ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddol yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2010, ac y mae Bwletin Ynni Cymru yn cadw golwg ar gynnydd. Nid oes yna MW ychwanegol wedi'i gynhyrchu gan bŵer gwynt ar y tir ers mis Mehefin 2006, sy'n golygu ein bod 72% yn hwyr yn ôl yr amserlen.

#### Ynni Gwynt ar y Tir – cynnydd tuag at darged TAN8, a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf, 2005



**Cysylltwch â** Llywelyn Rhys, Swyddog Cymru BWEA

t 07875 434 049

e [llywelyn@bwea.com](mailto:llywelyn@bwea.com)